

Cyngor Sir Powys Cylchlythyr y Gronfa

Gorffennaf 2026

Dolenni i Adrannau


[Mewngofnodi i
Fy Mhensiwn
Powys](#)

[Ffurflenni a
chyhoeddiada
u | Cronfa](#)

[Gweminarau
CPLIL a
McCloud](#)

[CPLIL:
Fideos
Aelodau](#)

[Taflen camau i
gadw'n ddiogel
rhag sgam](#)



Fy Mhensiwn Powys (MPP)

Fel defnyddiwr **MPP** cofrestredig, mae gennych eisoes fynediad diogel, 24/7 at eich gwybodaeth pensiwn.

Archwiliwch yr Offer sydd Ar Gael i Chi:

- Defnyddiwch y gyfrifiannell budd-daliadau ac offer cynllunio ymddeoliad i archwilio gwahanol senarios ymddeol. Gallwch brofi ystod o ddyddiadau ymddeol i weld sut y gallai ymddeol yn gynharach neu'n hwyrach effeithio ar eich budd-daliadau pensiwn.
- Cyrchwch eich dogfennau pensiwn yn ddiogel mewn un lle.
- Gallwch adolygu a diweddarau eich enwebiadau buddiolwyr a'ch manylion cyswllt arlein, heb orfod cysylltu â'r Gronfa.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth ddefnyddio MPP, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 01597 826128.

Mae cadw eich enwebiadau budd-dal marwolaeth (pwy yr hoffech i ni eu hystyried ar gyfer unrhyw gyfandaliad grant marwolaeth) a'ch manylion cyswllt yn gyfredol yn helpu i sicrhau bod eich cofnodion yn parhau i fod yn gywir ac yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth bwysig am bensiwn yn brydlon.

Datganiad Buddion Blynnyddol (ABS) 2025/26

Cewch wybod bod eich ABS ar gael i'w weld yn ystod yr wythnosau nesaf, i'ch helpu i wneud synnwyr o'ch datganiad, gwyliwch eich esboniad fideo wedi ei bersonoli ar eich porth Fy Mhensiwn Powys. Gallwch hefyd weld nodiadau canllaw a chwestiynau cyffredin ar ein gwefan:

[Ffurflenni a chyhoeddiadau | Cronfa Bensiwn Powys](#)

Bydd yr adnoddau hyn yn eich helpu i ddeall eich buddion pensiwn a'r wybodaeth a ddangosir ar eich datganiad.

Gweminar CPLIL a McCloud remedy

Ymunwch ag un o'r gweminarau rhad ac am ddim hyn i ddarganfod sut mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn gweithio a beth allai McCloud remedy ei olygu i chi. **Archebwch eich lle heddiw:** [Gweminarau McCloud :: CPLIL](#)

Os ydych eisiau gwell dealltwriaeth o'r CPLIL ond rydych chi'n brin o amser, mae'r **CPLIL wedi lansio fideo newydd 'Eich Dyfodol, Eich Yfory, Eich Pensiwn'** ac mae hwn ar gael ochr yn ochr â fideos defnyddiol eraill fel 'Sut mae eich pensiwn yn gweithio', 'Diogelwch i'ch teulu' a 'Bywyd ar ôl gwaith' ar y ddolen ganlynol: [Fideos :: CPLIL](#)





Sgamiau Pensiwn

Gall sgamiau pensiwn fod yn anodd i'w hadnabod, ac yn anffodus mae sgamwyr yn dod yn gynyddol soffistigedig yn y dulliau a ddefnyddiant. Mae llawer yn cyflwyno eu hunain fel cynghorwyr ariannol proffesiynol neu arbenigwyr pensiwn, yn siarad yn hyderus am gyfleoedd buddsoddi a chynllunio ymddeoliad.

Gall sgamwyr gysylltu â phobl yn annisgwyl dros y ffôn, ebost, neges destun neu gyfryngau cymdeithasol, yn aml yn addo enillion uchel, mynediad cynnar at gynilion pensiwn, neu gyfleoedd buddsoddi unigryw.

Cofiwch, os yw cynnig yn swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debygol ei fod.

Gallai cymryd ychydig eiliadau i **oedi, cwestiynu a gwirio** gwybodaeth helpu i amddiffyn cynilion eich ymddeoliad rhag twyll.

Mae'r *Pension Scams Action Group* (PSAG) wedi creu rhestr wirio syml o gamau ymarferol i'w dilyn os bydd rhywun yn cysylltu â chi am eich pensiwn. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am eich pensiwn, adolygwch y rhestr wirio a gofynnwch am arweiniad gan ffynhonnell ddibynadwy. Gallwch weld canllaw PSAG yma: [Camau i gadw'n ddiogel rhag sgamiau](#)



Defnyddio Gwybodaeth AI a Phensiynau: Gair o Rybudd

Gall offer AI helpu i esbonio termau a chysyniadau pensiwn, ond **ni ddylid dibynnu arnynt i wneud penderfyniadau am eich buddion pensiwn neu gynllunio am ymddeoliad**. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn rhybuddio y gall gwybodaeth a gynhyrchir gan AI fod yn anghywir, wedi dyddio neu'n anaddas ar gyfer eich amgylchiadau.

Peidiwch byth â rhoi gwybodaeth bersonol neu ariannol i mewn i offer AI. Cyn gwneud penderfyniadau am eich buddion pensiwn, incwm ymddeoliad neu drosglwyddo cynilion, cyfeiriwch bob amser at wybodaeth a ddarperir gan eich cynllun pensiwn ac ystyriwch ofyn am arweiniad neu gyngor ariannol rheoledig.




Oedran Ymddeol Cynharaf

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn flaenorol fod yr isafswm oedran ar gyfer cymryd pensiwn **yn cynyddu o 55 i 57 ar 6 Ebrill 2028**.

Efallai y cewch eich diogelu rhag y cynnydd hwn os:

- ydych wedi ymuno â'r CPLIL yng Nghymru neu Loegr cyn 4 Tachwedd 2021, neu
- eich bod wedi trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r CPLIL ac yn bodloni amodau cymhwyso penodol.

Os oes gennych yr amddiffyniad hwn, efallai y caniateir i chi gymryd eich pensiwn CPLIL cyn 57 oed. Fodd bynnag, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am osod rheolau CPLIL ac nid yw wedi cadarnhau eto a fydd aelodau sydd ag amddiffyniad yn gallu cymryd eu pensiwn CPLIL cyn 57 oed o 6 Ebrill 2028. Byddwn yn eich diweddarau cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.



Gwybodaeth a dolenni defnyddiol

Angen help i fewngofnodi i MPP, dewch o hyd i'n canllaw mewngofnodi yma:

[Ffurflenni a chyhoeddiadau | Powys Pension Fund](#)

Dewch o hyd i wybodaeth am y cynllun a chopïau o'n ffurflenni a'n canllawiau ar ein gwefan, [Hafan | Cronfa Bensiwn Powys](#)

Gellir dod o hyd i wybodaeth hanfodol am yr CPLIL ar y wefan aelodau,

[Hafan :: CPLIL](#)

Mae eich meddyliau, eich syniadau a'ch awgrymiadau yn ein helpu i wneud pob rhifyn yn well. Os oes rhywbeth yr hoffech ei weld wedi'i gynnwys, ei wella, neu ei archwilio mewn cylchlythyrau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni. Croesawir eich adborth bob amser ac rydym wir yn ei werthfawrogi!



www.cronfabensiwnpowys.org



pensions@powys.gov.uk



01597 826463